Eisteddfod Cymdeithas Dafydd ap Gwilym, Rhydychen

Cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus gan Gymdeithas Dafydd ap Gwilym, Rhydychen.

Carwyn Tywyn o Borth Tywyn gipiodd y gadair. Dyma ddywedodd y beirniad, Llewelyn Hopwood, am y gerdd fuddugol: "[Mae'r gerdd] 'Cyfle' gan 'Cerdyn Siawns' [yn] llunio myfyrdod ar natur byw yn Llundain o gymharu ag Aberystwyth gyda throsiad estynedig gêm fwrdd Monopoly. Mae'r arddull yn amrywiol braf – rhestru, brawddegau byrion, cwestiynau rhethregol, deialog – ac mae gan yr awdur glust da i linell cofiadwy ei sain a'i delwedd: 'Gwefusau'n cwrdd, ac ochenidiau'n awchu rhwng / cusanau ar waelod Consti'. Teimlir bod y mynegiant y gerdd yn rhwydd a'n ddiymdrech, a phleser oedd ei darllen ac ystyried ei chwestiynau: 'dau ddis fy mywyd, yn eiddo'n gyfan iddi hi'. Mae'r diweddglo penagored hwn yn nodweddiadol o hyder y bardd, a'u dawn i gynnal trosiad, peri cwestiynau, a llunio llinell effeithiol."

Alaw Jones (disgybl yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera) gipiodd y goron. "[Mae'r awdur] yn addo mai 'pennod gyntaf nofel' yw'r hyn a gyflwynwyd: nofel sy'n dilyn Mia a'n cychwyn wrth iddi gamu dros drothwy rhyw dŷ. Llwydda'r awdur i gyfleu mawredd y digwyddiad syml hwn: rhoddir sylw manwl i fwlyn y drws, arogl y tŷ, dieithredd y lle. Mae'r datgelu gwybodaeth yn aeddfed hefyd wrth inni ddysgu'n araf deg mai cartref Mia, Cai a Noah oedd hwn. Ond pwy yw 'Evelyn'? Beth ddigwyddodd ar 'y diwrnod hwnnw'? Ai nofel ddirgelwch fydd hon? Trosedd? Straen teuluol? Cwestiynau di-ben-draw a all gynhyrchu nofel dda."